# Trosglwyddo Hawliau Pensiwn Blaenorol i'r CPLlL

## Cyflwyniad

Pan ddewch yn aelod newydd o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), gallwch drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r cynllun, os gwneir y cais cychwynnol yn ystod y 12 mis cyntaf o ymuno (mae gan gyflogwyr y disgresiwn i ymestyn y ffenestr drosglwyddo).

## Beth yw Gwerth Trosglwyddo?

Mae 'gwerth trosglwyddo' (a elwir hefyd yng Ngwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod – CETV) yn cynrychioli gwerth eich hawliau pensiwn gyda'ch darparwr blaenorol. Os bydd trosglwyddiad yn mynd yn ei flaen, bydd y gwerth trosglwyddo yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn gan eich darparwr blaenorol a chaiff eich cyfrif pensiwn ei gredydu â swm pensiwn ychwanegol yn y CPLlL. Unwaith mae'r gwerth trosglwyddo wedi'i dalu, fel rheol ni fydd gennych hawl pellach i fuddion gyda'ch darparwr pensiwn blaenorol.

O bryd i'w gilydd bydd Adran Actiwari y Llywodraeth (GAD) yn cyflwyno ffactorau trosglwyddo newydd a allai newid faint o bensiwn y bydd eich gwerth trosglwyddo yn ei brynu yn y cynllun.

## Trosglwyddiadau o'r CPLlL

Os oes gennych bensiwn blaenorol yn y CPLlL yng Nghymru neu yn Lloegr, a'ch bod wedi gadael y cynllun ar 1 Ebrill 2014 neu ar ôl hynny, caiff ei gyfuno'n awtomatig â'r pensiwn CPLlL parhaus newydd (ar yr amod bod pob Cronfa yn ymwybodol o'r aelodaeth sydd gennych yn rhywle arall), **oni bai** eich bod yn dewis cadw'r buddion ar wahân. Mae gennych 12 mis o ail-ymuno â'r CPLlL i ddewis cadw'r pensiynau ar wahân.

Os gwnaethoch adael y cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd y pensiwn cynt yn cael ei gadw ar wahân i'r pensiwn CPLlL parhaus newydd, **oni bai** eich bod yn dewis cyfuno'r buddion. Mae gennych 12 mis o pan ydych yn ail-ymuno â'r CPLlL i ddewis eu cyfuno.

## Cyswllt Cyflog Terfynol (Ail-ymuno â'r CPLlL gyda'r gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2014)

• Os ydych wedi cael toriad parhaus mewn aelodaeth actif sy'n **llai** na 5 mlynedd, byddwch yn cadw unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014 fel pensiwn Cyflog Terfynol. Bydd y pensiwn a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 yn bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE). I bob pwrpas, bydd eich pensiwn CPLlL yn cael ei drosglwyddo i'ch Cronfa CPLlL newydd ar sail 'tebyg am debyg'.

• Os ydych wedi cael toriad parhaus mewn aelodaeth actif o **fwy** na 5 mlynedd, bydd y trosglwyddiad yn torri'r cyswllt cyflog terfynol a bydd yr holl bensiwn (cyflog terfynol a Chyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio – CARE) yn cael ei drosglwyddo a'i drosi'n bensiwn CARE.

## Cyfraniadau Ychwanegol

Gallwch drosglwyddo Cynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) blaenorol i ddarparwr CGY mewnol eich Cronfa CPLlL newydd.

Os oeddech chi'n talu tuag at brynu Blynyddoedd Ychwanegol, contract Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol (CRhY) neu gontract Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY), efallai y bydd gennych y cyfle i barhau i dalu am y cyfraniadau ychwanegol hyn, er y byddai angen i chi roi gwybod i'ch **Cronfa CPLlL newydd**.

## Credydau Pensiwn

Ni allwch drosglwyddo credyd pensiwn i'r CPLlL. Mae credyd pensiwn yn gyfran o bensiwn cyn briod neu gynbartner sifil. Y Llys fyddai wedi dyfarnu hyn o dan orchymyn rhannu pensiwn yng Nghymru neu Loegr, neu drwy gytundeb cymwys yn yr Alban, yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil.

## Trosglwyddiadau o Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus

Mae Cynlluniau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys:

• Gweision Sifil

• Y Farnwriaeth

• Lluoedd Arfog

• Gweithwyr Llywodraeth Leol

• Athrawon

• Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd

• Tân ac Achub

• Lluoedd yr Heddlu

• Aelodau o Gynllun Pensiwn Corff Cyhoeddus newydd

Os oes gennych hawliau pensiwn yn un o'r cynlluniau hyn a bod gennych doriad parhaus o **lai** na 5 mlynedd mewn aelodaeth actif, bydd gennych hawl i gadw eich cyswllt Cyflog Terfynol hyd yn oed os byddwch yn ei drosglwyddo i'r CPLlL (os yw'n berthnasol).

Fodd bynnag, os yw'r toriad **yn fwy na** 5 mlynedd, bydd y cyswllt Cyflog Terfynol yn cael ei dorri wrth drosglwyddo, a byddai'r pensiwn yn cael ei drosi'n bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio yn y CPLlL.

## Trosglwyddiadau o Gynlluniau Sector Preifat neu Gynlluniau Pensiwn Personol

Mae trosglwyddiadau o Gynlluniau Sector Preifat neu Gynlluniau Pensiwn Personol yn cael eu trin yn wahanol i Bensiynau'r Sector Cyhoeddus. Bydd swm y pensiwn a gredydir wrth drosglwyddo yn amrywio o gynllun i gynllun, a gall amrywiad yn y marchnadoedd ariannol a gwerth terfynol eich Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod effeithio arno hefyd.

### Lwfans Blynyddol

Y Lwfans Blynyddol (LB) yw faint y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn heb i chi orfod talu tâl treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn mewn blwyddyn (gan gynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLlL) yn fwy na'r lwfans blynyddol, gellir trethu'r gormodedd fel incwm. Y terfyn lwfans blynyddol cyfredol yw £40,000.

Pan ydych chi’n trosglwyddo pensiwn blaenorol i'r CPLlL, rydych yn fwyaf tebygol o gael eich effeithio gan y LB os:

• ydych chi'n trosglwyddo hawliau pensiwn i'r CPLlL o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus blaenorol o dan reolau trosglwyddo'r clwb ac mae'ch cyflog (cyfwerth llawn amser) wrth ymuno â'r CPLlL yn uwch na'r cyflog roeddech chi’n ei ennill pan adawsoch y cynllun blaenorol.

• ydych chi'n cyfuno buddion pensiwn CPLlL blaenorol a gafodd eu cronni yn adran cyflog terfynol y CPLlL gyda'ch cyfrif pensiwn cyfredol a bod eich cyflog (cyfwerth llawn amser) wedi cynyddu'n sylweddol ers gadael y cynllun o'r blaen.

## Proses Trosglwyddo i mewn

• Mae’n rhaid i bob Cynllun Pensiwn cofrestredig ddilyn y rheoliadau a oedd mewn grym ar adeg y trosglwyddo gan Cyllid a Thollau EM.

• I ddechrau'r broses, rhaid i chi ofyn am ymchwiliad trosglwyddo trwy lenwi ffurflen Awdurdod Trosglwyddo cyn pen 12 mis ar ôl ymuno â'r cynllun. Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi **ym mhob achos** p'un a ydych am drosglwyddo ai peidio, gan fod hyn yn helpu'ch Cronfa i benderfynu a oes gennych gyswllt cyflog terfynol oherwydd pensiynau eraill y sector cyhoeddus sydd gennych o bosib.

• Fe allai trosglwyddiadau gymryd peth amser i'w cwblhau. Po gynharaf y byddwch yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflen(ni) Awdurdod Trosglwyddo, y cynharaf y gall y Gronfa ddechrau'r broses drosglwyddo.

• Ar ôl i'r Gronfa dderbyn yr holl wybodaeth, anfonir dyfynbris atoch yn dangos y pryniant pensiwn. Bydd y ffigyrau wedi'u cyfrifo o'r gwerth trosglwyddo o'r cynllun blaenorol.

• Efallai yr hoffech ofyn am **Gyngor Ariannol Annibynnol** cyn gwneud y dewis i drosglwyddo eich hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLlL.

• Os dewiswch drosglwyddo, bydd eich Cronfa CPLlL wedyn yn llenwi'r holl ffurflenni gofynnol, ac yn gofyn am daliad o'ch cynllun blaenorol.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o Wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982

E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

## Ymwadiad

Nid yw’r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai’r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/

Helpwr Arian: Choosing a financial adviser (moneyhelper.org.uk)